

Papur Pawb

Pris: 25c

Hydref 2005

Rhif 312

Fandaliaeth

Gyda'r tristwch mwyaf mae'n rhaid i mi gofnodi fod y math o fandaliaeth diystyr mae rhywun yn cysylltu a dinasoedd Lloegr yn fyw ac yn rhemp yng nghefn gwlad Ceredigion. Ychydig o ddiwrnodau yn unig ar ôl gorffen y gwaith o adnewyddu'r Llan-fach, Taliesin, achosodd rhywrai dros bedwar can punt o ddifrod drwy dorri ffenestri yng nghefn yr adeilad ar ôl cymaint o waith gwirfoddol o hel arian i wella'r adeilad a'i ailagor at ddefnydd y gymuned. Rwy'n siwr bydd yr heddlu yn falch o glywed gan unrhyw un sydd â gwybodaeth, er mwyn dod a'r troseddwr i'r llys. Er gwaethaf hyn agorwyd y Llan-fach a gobeithia'r pwyllgor y bydd yn atyniad i gymdeithasau'r pentref.

Ar y map



Dyma ni, ar ôl trafodaeth yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Ceulanamaesmawr, map newydd, hawdd ei ddarllen gyda digon o ddewis o lwybrau hwylus i'w cerdded a'u mwynhau o un pen y gymuned i'r llall. Lleolir un o'r mapiau ger yr hysbyswrdd ym Mont-

Goch a'r llall ar wal y cyfleusterau cyhoeddus yng ngwaelod pentre Tal-y-bont. Mae'r map yn dangos yn glir terfyn y gymuned yn ogystal â llefydd o ddiddordeb fel Caer Llety Llwyd, Gwaith Bwlch-glas a Chwarel yr Hafan.

Papur Pawb

Golygyddion Cyffredinol:	Eleri a Gwilym Huws Pengwern, Tal-y-bont, Ceredigion Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon	(01970) 832231 gwh@aber.ac.uk
Tynnu lluniau: Teipyddes:		
Bont-goch: Parsel Henllys: Eglwysfach: Talesin: Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Hilda Thomas, Cwmere, Bont-goch Dilys Morgan, Alltgoch Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Mai Leeding, Glannant, Talesin Aileen Williams, Maesmeillion Kathleen Richards, Y Bryn	832295 832498 (01654) 781312 832672 832438 832201
Tre'r Ddôl: Maes y Deri:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832429 832483
Cadeirydd: Ysgrifennydd: Trysorydd: Aelodaeth: Hysbysebion: Plygwyr:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Robat Gruffudd, Bryngwyn, Tal-y-bont Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Lyn Hammonds, Beti Jenkins, Dafydd Parri, Gwenllian Parry-Jones Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eirlys Jones (Tanysgrifiadau)	832718 832384 832560 832438 (01654) 781312
Dosbarthwyr:		

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyron

Annwyl Gyfeillion

Fedrwch chi ein helpu, tybed? Mae cynllun Gwyliau Cymraeg y Mentrau Iaith yn cael gwefan newydd: www.gwyliaucymraeg.co.uk Fe fydd yn adnodd gwerthfawr i unrhyw un sydd â diddordeb yn yn iaith Gymraeg ac am gael gwyliau drwy gyfrwng yr iaith. Cyfle gwych hefyd i ddsygwyr gael mwy o gyfle i ymarfer yr iaith. Ydych chi'n adnabod rhywun sy'n darparu llety/bwyty/tafarn/atyniad drwy gyfrwng y Gymraeg? Does dim cost i gael bod ar ein gwefan – cyfle arbennig i gael hysbysebu'n rhad ac am ddim! Fe fyddwn yn falch iawn o glywed gennyh. Cysylltwch â Carys Dafydd, Swyddog Gwyliau Cymraeg, Menter Iaith Gwynedd, 38-40 Stryd Fawr, Caernarfon LL55 1RH. Ffôn 01286 674112; e-bost post@gwyliaucymraeg.co.uk Diolch yn fawr, Carys Dafydd

Erwau'r Gwynt, Dôl Werdd,
Llangefni, Ynys Môn
LI77 7NU

Annwyl Ffrindiau

Apeliwn yn daer ar Gymry i gefnogi Ymgyrch 'Operation Christmas Child' eleni. Fedrwn ni ddim newid y byd, ond medrwn newid bywyd plentyn trwy anfon bocs sgidiau llawn anrhegion. Cofiwch hefyd am yr unedau puro dŵr sy'n costio £40 yr un – ni fedrwn amgyffred llawenydd mam a dderbyniodd un o'r rhain am nad oes raid iddi bellach wylio ei phlant yn marw ar ôl yfed dŵr wedi'i heintio.

Am sgwrs yn Gymraeg, ffoniwch ni ar 01407 840144 neu ymwelwch â'r wefan www.samaritanspurse.uk.com Yn gywir Alan a Mair Parry Cydgysylltwyr

**NEUADD GOFFA
TAL-Y-BONT
NOS FERCHER, 19
HYDREF
am 7.30 o'r gloch**
Cyngerdd gan
ddisgyblion Ysgol
Gyfun Penglais
Mynediad: Oedolion £3,
Plant £1
Llywydd y Noson: Mr Brian
Davies, Talesin

**NOS WENER, 4
TACHWEDD
am 8.00 o'r gloch**
Cwmni Drama
Llandudoch
yn perfformio
'Ffair Ffeiradon'
Mynediad: Oedolion £3;
Plant am ddim
Llywydd y Noson:
Mr Harry James, Llannerch

**DYDD SADWRN,
26 TACHWEDD
am 2.00 o'r gloch**
Ffair y Neuadd
Ceir manylion pellach yn y
rhifyn nesaf.

**NOSON GWIS
12 TACHWEDD 2005
am 7.30 o'r gloch**
**yn Neuadd yr Eglwys
Eglwysfach**
Tîm o bedwar £5
I archebu bwrdd ffoniwch
01654 781312/781343
Tuag at Neuadd yr Eglwys
Lluniaeth ysgafn

Dyddiadur

HYDREF

- 16 Bethel** 10 Parch John Tudno Williams
Nasareth 10 J. Tudno Williams (B)
Rehoboth 10 Trefniant lleol
Eglwys Dewi Sant Gweler yr hysbysfwrdd
- 17 Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch.** Mrs Mary Griffiths, Llywydd y Bwrdd Iechyd
- 18 C.Ff.I.** Ymarfer Eisteddfod
- 19 Cyngerdd gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Penglais** yn Neuadd Goffa Tal-y-bont am 7.30
- 23 Bethel** 2 Parch Terry Edwards
Nasareth 10 Glyn Morgan
Rehoboth 10 Bugail
Eglwys Dewi Sant Gweler yr hysbysfwrdd
- 25 C.Ff.I.** Ymarfer Eisteddfod
- 27 Sefydliad y Merched Tal-y-bont.** A.G.M.
C.Ff.I. Eisteddfod y Sir, Llanbed
- 29 C.Ff.I.** Eisteddfod y Sir, Llanbed
- 30 Bethel** 10 Parch Tudor Davies
Nasareth John Tudno Williams
Rehoboth 10 Ifan Mason Davies
Eglwys Dewi Sant Gweler yr hysbysfwrdd
- TACHWEDD**
- 1 C.Ff.I.** Ymweliad â Fferm Tregibby, Aberteifi
- 4 Cwmni Drama Llandudoch** yn perfformio 'Ffair Ffeiradon', Neuadd Goffa Tal-y-bont, 8 p.m.
- 6 Bethel** 6 Gweinidog
Nasareth 5 Bugail (C)
Rehoboth 10 T.J. Irfon Evans
Eglwys Dewi Sant Gweler yr hysbysfwrdd

- 8 C.Ff.I.** Noson yng ngofal y Cadeirydd
- 10 Sefydliad y Merched Tal-y-bont.** Prynawn yr aelodau (ddim yn y Neuadd Goffa)
- 12 Noson gwis.** Neuadd yr Eglwys, Eglwysfach am 7.30
- 13 Bethel** 2 Ifan Mason Davies
Nasareth 10 Bugail
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant Gweler yr hysbysfwrdd
Neuadd Goffa Tal-y-bont. Gwasanaeth 'Sul y Cofio'. 10.45 a.m.
- 15 C.Ff.I.** Triip Dirgel
- 18 Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r Cylch.** Arddangosfa Trefnu Blodau, Ysgol Penweddig, 7 p.m. Tocyn £6 i gynnwys ymborth tymhorol.
- 20 Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth 10 R.H. Lewis (Bethel)
Rehoboth 10 M.J. Morris
Eglwys Dewi Sant Gweler yr hysbysfwrdd
- 21 Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch.** Yr awdur Caryl Lewis, Goginan
- 24 Sefydliad y Merched Tal-y-bont.** Trefnu Blodau – Rose Rowlands
- 26 Ffair y Neuadd.** Neuadd Goffa Tal-y-bont, 2 p.m.
- 27 Bethel** 10 W.L. Gealy
Nasareth 10 Elwyn Pryce
Rehoboth 5 Elwyn Pryce
Eglwys Dewi Sant Gweler yr hysbysfwrdd.

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Beryl a Mair, gyda Ceri'n dylunio. Golygyddion rhifyn mis Tachwedd fydd Helen 832760, Ceri 832543 a Dafydd Saer 832141. Dyla'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn dydd Gwener 4 Tachwedd 2005, a bydd y papur ar werth yn y siopau ddydd Gwener 11 Tachwedd.

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith

DIOLCH

Hoffai Anwen, Carys a Geraint ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau, yr anrhegion a'r ymweliadau tra buodd Geraint yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r rhai a ofalodd am Carys a phopeth adre tra buom ni i ffwrdd.

Dymuna Mrs Dorothy Jones, Huw a Deiniol a'u teuluoedd, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd gan gyfeillion o'r ardal ar achlysur marwolaeth Y Parch Richard Jones, Llanelwy. Diolch hefyd am y cyfraniadau dderbyniwyd i'w gronfa goffa. Gydymdeimlwn a Mrs Williams Y Berllan a theulu Penwern yn eu profedigaeth.

PRIODAS AUR

Llongyfarchiadau calonnog i Mr a Mrs Hywel Jenkins, Gwedd Ynys, Taliesin ar ddathlu eu priodas aur ar Fedi 24ain.

ADRE O'R YSBYTY

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mrs Alwen Williams, Y Berllan, sydd wedi cael Rheolydd Calon yn ddiweddar yn ysbyty Abertawe yn ddiweddar a hithau yn 99 oed.

YN YR YSBYTY

Cofion at Mr Bennett, Ynys Capel sydd yn Ysbyty Bronglais.

BRYSIWCH WELLA

I Mrs Marjorie Cookson, Tan-y-bryn, Eglwysfach sydd wedi cael cyfnod yn ysbyty Machynlleth yn ddiweddar.

GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Mrs Jenkins, Tegfan, Tal-y-bont, ar ddod yn hen famgu ac i Jac a Glenys Evans, Y Llwyn ar ddod yn

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

Cinio Blynyddol

Nos Wener 2 Rhagfyr
Ym Mhlas Antaron,
Aberystwyth
Gŵr Gwadd –
Mr Charles Arch

(mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf)

COFIWCH AM YR YRFA
CHWIST AR NOS
FERCHER 21 RHAGFYR

Pobl a Phethe



Medalau Hir Wasanaeth

Yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd eleni, derbyniodd Brian Jones, Pen-lôn, Tal-y-bont Fedal Hir Wasanaeth am 41 mlynedd o weithio ar fferm Gogerddan. Yn y llun hefyd mae Lowri Jones yn derbyn medal er cof am ei thad Alwyn Jones, Penrhyncoch hefyd am 41 mlynedd o wasanaeth i fferm Gogerddan.

ddadcu a mamgu am y tro cyntaf yn ddiweddar. Ganwyd merch fach, Beca Mair i Carwen a Dylan Jones, Machynlleth.

TEULU'N DATHLU

Llongyfarchiadau i Phil a Megan Davies, Gwynionydd, Tal-y-bont sydd wedi dathlu eu Priodas Arian ar 11 Hydref ac i Hedydd oedd yn 18 ar y 7fed o Hydref.

ENNILL £500

Llongyfarchiadau i Janet Evans, Cefngweiriog ar ennill £500 mewn cystadleuaeth gyda'r Swyddfa Post yn y Sioe Frenhinol eleni.

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn gyda Ann a Tony Jones, Tremafon, Tal-y-bont ar farwolaeth mam Ann, Mrs Betty Jones yng Nghartref Plas Cwm Cynfelen, Clarach. Hefyd, cydymdeimlwn gyda Mrs

Ann Watkin ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith, sef gweddw ei brawd David yn Standstead, hefyd teulu Nantddu ar farwolaeth modryb i Mair.

WEDI BOD MEWN PLASTAR

Mae Dafydd Evans, Cefngweiriog wedi cael ei goes yn rhydd unwaith eto ar ôl bod mewn plastar dros yr haf ac mae ei frawd Arwyn wedi treulio amser yn yr ysbyty.

WEDI BOD YN YR YSBYTY

Mae Marianne Griffiths Tal-y-bont ac Evan James, Tre'r Ddôl wedi cael triniaeth ar eu llygaid, Mathew James, Wenoth, Tre'r Ddôl wedi cael triniaeth ar ei law a Gwen Manley, Swyn y Leri, Tal-y-bont, wedi cael triniaeth yn Gobowen, a John Roberts Felin Fach Tal-y-bont wedi cael triniaeth ar ei goes yn ddiweddar.

CYWIRIAD

Yn y rhifyn diwethaf o *Papur Pawb*, llongyfarchwyd nifer o bobl ifanc lleol am eu llwyddiant mewn arholiadau gradd. Yn yr adroddiad, nodwyd mai Cymraeg oedd pwnc gradd Mererid James, Cwmudw, Tal-y-bont ond, mewn gwirionedd, Seicoleg oedd ei phwnc. Ymddiheurwn am y camgymeriad.

CROESO

Croeso mawr i Mr a Mrs Illtud Griffiths sydd wedi symud o Gapel Bangor i fyw yn Glandyfi. Gobeithio y byddwch yn hapus yma.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i David a Jan Granger, Tre'r Ddôl ar enedigaeth wyr arall, sef Lloyd, mab i Tim a Sonia Ellis Jones, Llanbadarn.

SWYDDOGION YM MHENWEDDIG

Llongyfarchiadau i Cian Llywelyn, Isycoed, Tal-y-bont, a Hedydd Mai Phylip, Gwynionydd, Tal-y-bont, ar gael eu hethol yn swyddogion yn Ysgol Penweddig.

MERCHED Y WAWR TAL-Y-BONT A'R CYLCH

Cynhaliwyd noson agoriadol y tymor newydd nos Lun, 19 Medi, o dan lywyddiaeth Ellen ap Gwynn. Croesawyd Dulcie James i'n plith, ac roedd hithau wedi paratoi cwis cyffredinol i'r aelodau i gyd gymryd rhan. Cafwyd noson hwyllog i ddechrau gweithgareddau'r tymor. Roedd aelodau'r pwyllgor wedi paratoi lluniaeth ysgafn a phaned ar y diwedd.

CÔR YN 35 OED

Mae Jenny Fothergill a Stephanie Bates sydd yn aelodau Cymdeithas Gorawl Aberystwyth wrthi'n brysur yn ymarfer ar gyfer eu cyngerdd nesaf, sydd yn dathlu 35 blwyddyn ers sefydlu'r côr. Maent yn perfformio "Elijah" yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ar nos Sadwrn 10fed o Ragfyr am 8 o'r gloch. Bydd cerddorfa fawr gyda Bethan Dudley, Gaynor Keeble, Wynne Evans a Stewart Kempster fel unawdwyr o dan arweiniad David Russell Hulme. Y gobaith yw cael cynulleidfa lawn i nodi a dathlu'r achlysur arbennig hwn.

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Gwneud Siytnei

Fel dosbarth fe aethom ati i gasglu £7 ar gyfer prynu tomatos gwyrdd o fferm Berthlwyd.

Un bore dydd Iau aethom ni Berthlwyd i gasglu'r tomatos gwyrdd o'r tŷ gwydr. Fe dalon ni £3 amdanynt ac felly roedd gennym £4 ar ôl.

Wedyn, cawsom afalau oddi wrth deulu Tanllan.

Cyn i ni ddechrau coginio, fe siarsiodd Mr Davies pa mor bwysig oedd hi i ni olchi ein dwylo.

Fi a Luke gafodd y gwaith o dorri'r tomatos.

Huw, Josh, Iwan a Leri dorrodd yr afalau ac Elan a Elen y wynwns.

Pwysom ni y siwgrwr gwyn ond dim ond jobyn go lew wnaeth Mr Davies.

Diolch yn fawr iawn i Miss Williams a Mrs Jones a Mrs James y gegin am bob cymorth.

Gyda llaw, roedd y siytnei'n flasus iawn ac rwy'n siwr y bydd pawb yn cofio'r profiad.

Richard Bailey.

Baw ci

A ga i ofyn am ddwy gymwynas os gwelwch yn dda. Yn ddiweddar y mae baw ci wedi ymddangos yn y maes parcio ac ar feysydd chwarae yr ysgol. Ga i ofyn yn garedig iawn i chi gadw llygad ar y sefyllfa ar ran yr ysgol os gwelwch yn dda.

Yn ail, mae'n siwr eich bod wedi sylwi nad oes gennym hebyngwr i dywys plant ar draws y ffordd yn y bore ac yn y prynhawn bellach. Hoffwn ddiolch yn fawr i Richard Bayford am ei gymorth dros y blynyddoedd diwethaf ond gofynnwn yn garedig hefyd os oes gan rywun ddiddordeb i wneud y gwaith, i gysylltu gyda'r ysgol cyn gynted â phosibl.

Cerdded i'r Ysgol

Ar fore glawog ym mis Hydref, daeth twr o blant Ysgol Tal-y-bont ynghyd a cherdded o Faes y Deri i'r ysgol. Roedd hyn yn rhan o Wythnos Hybu Cerdded i'r Ysgol. Diolch i bawb a gefnogodd y digwyddiad.

Yn ddiweddar, daeth yr ymwelydd iechyd i siarad gyda'r plant lleiaf am sut i edrych ar ôl babanod. Diolch hefyd i Siwan a Cai am ddod gyda hi.

Drama Owain Glyndŵr

Yr wythnos diwethaf daeth Mark o Gwmni Konflux i'r ysgol i wneud drama Owain Glyndŵr gyda Bl 5 a 6.

Roedd yn ddrama dda iawn o ystyried mai dim ond pedair awr o ymarfer gawsom ni o'r dechrau i'r diwedd.

Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad o ddysgu geiriau a pherfformio o flaen yr ysgol yn fawr iawn.

Ffion ac Anwen.

Y Clwb Ffrangeg

Mae Clwb Ffrangeg newydd ddechrau ar ôl ysgol yn Ysgol Tal-y-bont i ddysgu y dysgyblion sut i siarad Ffrangeg cyn i ni fynd lan at yr ysgolion uwchradd yn y dre. Anne-Marie, sydd yn dod o Ffrainc yn wreiddiol sy'n ein dysgu ni yn y Clwb. Mae hi'n siarad yr iaith yn berffaith ac rydym yn cael llawer o hwyl yno.


SEFYDLIAD Y MERCHED EGLWYSFACH

Yn ystod yr haf fe dreulion ni ddiwrnod arbennig o dda yn Sir Henffordd yn ymweld â Gŵyl Eardisley. Mi roedd hi'n braf cael cwmni Sheila Talbot a Janet Morgan o Dal-y-bont hefyd. Yno roedd stondinau o bob math, gerddi ar agor er mwyn i ni gael crwydro neu gael paned. Yn yr eglwys roedd gŵyl flodau fendigedig. 'Cerdd' oedd y thema a doedd neb wedi gweld arddangosfa cystal erioed. Yn yr ysgol roedd hefyd arddangosfa grefft a hanes y pentref. Ar y strydoedd roedd dawnswyr yn mwynhau cerddoriaeth. Roedd y pentref cyfan yn cymryd rhan a phe baech yn teimlo braidd yn flinedig roedd fflyd o hen geir ar gael i'ch cludo o gwmpas! Cymerodd rhai o'r aelodau fantais o'r ceir i fynd i weld gardd gyfagos yn y prynhawn sef Cheyneys Gate. Lle tawel oedd ac mi gawson ni groeso hyfryd gyda the a chacennau'n dod yn ddi-stop yn yr ystafell wydr. Roedd hyn ar ôl cael cinio blasus yn Neuadd y Pentref! Ar y ffordd nôl fe stopion ni yn Rhayader i gael swper yng ngwesty 'Bryn-afon'.

Ar y 5ed daeth Melvyn Grey o Gastellnewydd Emlyn i siarad am 'Tu hwnt i'r Cylch Artig'. Ffotograffydd proffesiynol yw ac mae ganddo sleidiau bendigedig o fywyd gwyllt. Roedd yn hynod braf gweld rhai o ddynion y pentref yn ymuno â ni!

Roedd hi'n bleser croesawu Gerald Morgan nôl i'n plith. Cawsom ddarlith ddiddorol am 'Lwybrau arfordir Ceredigion'. Rydyn ni'n edrych ymlaen i'w weld e'n dychwelyd eto yn y dyfodol.

W.F.



I.O. Thomas a'i Fab
Cigydd, Penygarn

Cig Ffres i'r Rhewgell, Saisig Carrref
Oen Cymru, Cig Eidion Gorau
Ffôn: (01970) 828447

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?



Iwan Jones, Technegydd Possoerol
Gallinorwycl, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5HI
01970 832760

AM EICH HOLL ANGHENION BRODWAITH, CROESBWYTH A THAPESTRIAU

GALWCH YN **PWYTHAU'R SGUBOR**

GER SIOP GOFFI A CHREFFTAU PENNAU, RHYDYPENNAU, BOW STREET, ABERYSTWYTH
FFÔN: 01970-820122

A DAVIES TRYDANOL



Tŷ Morben Isaf
Derwenlas
MACHYNLETH
Powys SY20 8SR
ALAN DAVIES Ffôn 01654 781213

Os anafed neu heb imeni

CAMBRIAN CABS

Deirhian Bell ac Agos
01970 626292

Ysgol Gynradd Llangynfelyn



NSPCC

Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion yr ysgol ar ddangos cefnogaeth arbennig i'r NSPCC, drwy wneud symiau mathemateg noddedig. Bu'r plant wrthi'n ddygn yn casglu noddwyr, ac fe gasglwyd y swm anrhydeddus o £700. Bydd hyn o fudd mawr i'r gymdeithas hynny.

Archeolegwyr

Ar brynawn crasboeth yn yr haf, braf oedd cael cerdded drwy'r pentref i lecyn agored lle roedd ymchwiliadau archeolegol yn digwydd. Cafodd y disgyblion ddysgu sut oedd gwneud cloddfa archeolegol, a gweld olion yr hen ffordd o'r canol-oesoedd. Roedd yn brynawn buddiol oedd wrth fodd y digyblion oll.

Taith Gerdded yr Urdd

Cafodd aelodau'r Urdd y pleser o ymuno gyda disgyblion o amrywiol ysgolion Ceredigion i gymryd rhan mewn taith gerdded noddedig yn Aberystwyth. Ar ôl cyfarfod ger y Clwb Peldroed, cawsant gerdded i'r harbwr, ac yna ar hyd y prom, yn ôl ac ymlaen. Tipyn o brofiad oedd cael ymuno gyda'r cannoedd eraill i ddatlu aelodaeth o'r Urdd a chodi arian iddynt.

Marc Safon

Bu'r ysgol yn ffodus iawn i fedru cael ei hail wobrwyo gyda'r Marc Safon ar gyfer Sgiliau Sylfaenol o fewn yr ysgol. Gobrwyr y Marc Safon i sefydliadau sydd wedi eu hymrwymo i godi safonau llythrennedd a rhifedd, ac yn cynllunio yn fanwl ar gyfer hynny. Braf felly yw llongyfarch llyodraethwyr, staff a disgyblion yr ysgol ar ymgyraedd i'r safon uchel hwn.

Gem 24

Bu tim mathemategol o'r ysgol yn cystadlu yn Ysgol Padarn Sant ar y Gem 24. Gem yw hon lle cant bedwar rhif, a rhaid iddynt ddefnyddio pob rhif i greu 24, drwy adio, tynnu, lluosio neu rannu. Fe ymdrechodd y tim yn dda iawn, ac er na llwyddasant i gyrraedd y brig, cawsant brofiad dymunol iawn.

Jez Danks

Cafodd disgyblion yr ysgol eu diddanu a'u hannog i ddysgu ac arbrofi gyda gwahanol offerynnau cerdd, pan daeth Jez Danks i'r ysgol. Roedd y cwrs wedi ei drefnu gan Ganolfan y Celfyddydau, ac roedd y plant wrth eu bodd yn dysgu enwau a defnydd y gwahanol offerynnau, a cheisio eu defnyddio. Pinael yr amser oedd creu dawns wreiddiol a'i pherfformio ar ddiwedd y sesiwn.

Prosiect Teithio Celf

Cafodd yr Ysgol y ffrind arbennig o fod yr ysgol gyntaf i gymryd rhan yn y prosiect teithio celf. Prosiect wedi ei gyd-lynu gan Ganolfan y Celfyddydau, unwaith eto, ac roedd cwmnïau Arriva a banc Barclays wedi noddi'r gwaith.

Y cysylltiad rhwng y wlad a'r dref oedd pwnc y prosiect hwn. Cafodd y disgyblion eu hannog i ddefnyddio'r celfyddydau gweledol i gyfleu eu bywydau eu hunain a bywyd cymuned arall. Wrth deithio ar



Capteiniaid timau mabolgampau

y tren, rhwng Aberystwyth ag Amwythig, cawsant ddefnyddio cerbyd y tren fel stiwdio waith, dan arweiniad yr artist lleol, Catrin Webster. Roedd y gwaith yn mapio eu taith yn ddaearyddol, yn hanesyddol ac yn gymdeithasol.

Daeth disgyblion o Ysgol Babyddol Holy Family i ymweld ag Aberystwyth, i weld yr ardal, i gael barbeciw yn yr ysgol ac i ymweld ag Ynyslas. Hyfryd oedd gweld disgyblion y ddwy ysgol yn cyd-weithio, yn cyd-chwarae ac yn mwynhau cwmni ei gilydd. Un o olygfeydd hynotaf y prosiect oedd gweld plant yn mwynhau a phrofi glan y môr am y tro cyntaf. Yn anffodus, oherwydd y bygythiadau terfysgol yn Birmingham, ni fu hi'n bosibl i ddisgyblion ddychwelyd i Birmingham, ond cafwyd taith i'r Amwythig yn lle. Gobeithir ymweld ag ysgol Birmingham yn y dyfodol agos.

Nid yw'r prosiect ar ben eto. Bydd elfennau o waith y plant yn cael ei arddangos ar bosteri yn y gorsafod tren, ac hefyd mewn arddangosfa yn y Ganolfan Celfyddydau yn y Gwanwyn. Cofiwch fynd i weld. Bydd hefyd gysylltiadau yn cael eu datblygu rhwng aelodau hyn y ddwy gymuned yn y dyfodol agos.

Trip yr Ysgol

Cafodd gweddill yr ysgol daith arbennig i ardal Tregaron. Cawsant daith o amgylch Cors Caron dan ofal y warden, gan ddysgu am bob math o fywyd gwylt, oedd yn addas iawn i thema'r tymor ar y pryd. Ar ôl brechdanau i ginio, cafodd y plant hyn ymweld â'r amgueddfa fictorianaidd, gan brofi bywyd ysgol yn yr hen amser. Ar yr un pryd, cafodd y plant iau wledd o fwynhad ym Mhentre Bach. Dychwelodd pawb i'r ysgol wedi blino'n lan ar ôl diwrnod hyfryd a thywydd bendigedig.

Gwyl Athletau Campau'r Ddraig

Bu disgyblion yr ysgol yn mwynhau amrywiaeth eang o gampau yn Ysgol Penglais cyn diwedd y tymor diwethaf. Ynghyd a nifer o ysgolion eraill bu'r plant yn taflu jafelin, gwneud naid uchel, cydbwysio, taflu, rhedeg a nifer fawr o weithgareddau eraill. Yn ychwanegol i gael mireinio eu sgiliau chwaraeon, cawsant bleser a mwynhad.

Barbeciw CRHA

Ar noson hyfryd o Orffennaf cafodd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon eu barbeciw blynyddol. Braf oedd gweld cynifer o rieni a chyfeillion yr ysgol yn mynychu yr achlysur. Brafach byth oedd bod cynifer ohonynt wedi medru trefnu gwahanol weithgareddau i godi arian, oedd yn llawn hwyl a phleser.

Cymerwyd mantais ar yr achlysur i ddymuno yn dda i Mrs Nia Vaughan, sydd wedi symud i weithio i'r Adran Addysg yn barhaol. Diolchwyd iddi am ei blynyddoedd o waith brwdfrydig, a chyflwynwyd rhodd iddi ar ran y staff a'r rhieni.

Fe fwynhaodd pawb y noson yn fawr, a dymunir diolch i bawb a gefnogodd y noson ym mhob ffordd.



Mrs Nia Vaughan

NABOD

Ann Ovens, Tan- y - Cae, Bontgoch

Ar ôl seibiant dros yr haf, dyma gyfle i ail-gydio yn y gyfres a dod i nabod person arall. Y tro hyn y gwrthrych yw Ann Ovens, Tan- y - Cae, Bontgoch. Yn ei gwaith mae Ann yn fydwraig yn gweithio yn Ysbyty Bronglais ond fe fyddwn ni'n dod i'w hadnabod trwy ei diddordeb mawr sy'n llanw pob awr bron o'i hamser hamdden, sef adar a dofednod. Ar y llecyn tir gerllaw Tan- y - Cae mae Ann yn cadw dros 80 o adar, yn ieir, gwyddau, chwyiaid a mathau eraill – fel y cawn weld.

Fe gychwynodd y diddordeb pan oedd hi'n byw yn Affrica. Yno, os oeddech chi am gael wyau a chig ffres doedd dim byd amdani ond cadw ieir ac anifeiliaid eraill. A dyma gychwyn felly ar gadw ffowls a chwingod. Pob peth yn mynd yn ei flaen yn iawn hyd nes i Ann fynd i'r sied ieir un noson, gweld twll mawr yn y weiren a chanfod fod un hwyaden yn eisiau. Syllu i gornel pellaf y sied a gwled beth oedd ar yr olwg gyntaf yn foncyn cryf ac yna'n sylweddoli mai 'python' oedd yno – wedi dod i mewn drwy'r twll, bwyta'r hwyaden ac yna' n rhy dew i fynd allan eto! Galw am gymorth – saethu'r python a dysgu gwers sy gyda Ann hyd heddiw – gwnewch yn siwr fod y ffens o gwmpas y sied ieir yn saff!

Wel, does na ddim 'pythons' yn ardal Bontgoch ond mae na elyn rheibus yn stelcian o gwmpas Tan-y-Cae sef y llwynog, ond mwy am hwnnw nes ymlaen. Pan ddaeth Ann i Gymru fe ddaeth y diddordeb mewn ieir gyda hi ac fe ddechreuodd hi gadw bantams. Fe benderfynnodd fynd am 'pure-breed' a chychwyn cystadlu mewn sioeau. Roedd hi'n teithio mor bell a'r Amwythig, canolbarth Lloegr a De Chymru ac fe gafodd dipyn o lwyddiant. Ond roedd paratoi'r ieir yn cymeryd llawer o amser ac felly rhyw chwe mlynedd yn ôl rhoddodd Ann y gorau i gystadlu a chanolbwyntio ar gadw adar er mwyn bridio a'r wyau.

Roedd dysgu sut i fridio yn her. Yn sylfaenol mae na ddwy ffordd – ffordd natur a'r ffordd artiffisial gan ddefnyddio 'incubator.' Ffordd natur gyda'r iar yn gori ar yr wyau sy orau – does dim rhaid poeni am gynyddu neu ostwng y gwres, ma'r iar yn thermometr perffaith. Ond allwch fyth fod yn siwr faint o gywion ddaw ac mae ffordd natur yn araf ac yn dymhorol gyda'r adar yn gori yn y gwanwyn a'r haf – a'r cywion wedyn wrth gwrs yn osgoi caledi'r gaeaf. Gyda'r 'incubator' mae modd rheoli'r broses a bridio drwy'r flwyddyn. Pa bynnag dull a ddefnyddir mae'r cywion yn dod, yn cychwyn ei bywyd o dan y lamp wres ac yna'n raddol wrth iddyn nhw dyfu a magu plu yn cael mynd allan i chwilota am fwyd. Mae Ann wedyn yn cadw nhw nes iddyn nhw dyfu tipyn ac yna'n gwerthu mlan – fel adar bridio neu ddodwy.

Am yr ieir – mae na dair math yn Tan-y-Cae. Yn gyntaf, y 'pure breed, Cream Legbar.' Mae dau beth yn nodedig am rhain – ma nhw'n dodwy wyau glas a phan ddaw'r cywion allwch chi weld yn ôl lliw'r plu os oes iar neu geiliog gyda chi – y term Saesneg yw 'auto-sexing' (wnes ddim trial ffeindio cyfieithiad Cymraeg!). Ac yn naturiol os i chi'n cadw ffowls i ddodwy mae angen mwy o ieir arno chi – a dim ond un neu ddau geiliog! Wedyn mae ganddi 'Welssummer', iar 'pure breed' eto sy'n dodwy wŷ brown neis. Yn olaf, 'Warrens', iar gyffredin sy'n dodwy drwy'r amser. Gyda llaw, cyn i fi gael fy ngoleuo gan Ann roeddwn ni wastad wedi meddwl mae bwyd yr iar oedd yn rhoi lliw i'r wŷ – na, gwahanol fridiau o ieir, gwahanol liwiau o wy.

Y gwyddau – y brid fan hyn yw 'Toulouse'. Dyma'r wydd a gedwir yn Ffrainc i wneud yr enwog 'pate de foie gras' – mae'r wydd yn cael ei gorfwydo gyda math arbennig o gorn i chwyddo'r afi sy'n sail i'r 'pate.' Dyw Ann ddim yn gwneud hyn – mae hi'n cadw'r gwyddau i fridio ac er mwyn yr wyau. Mae gwydd Toulouse yn aderyn mawr llwyd, yn pwyso tua 15 pwys, yn medru byw am ddeugain mlynedd, ac yn dawel ac yn gartrefol, yn cadw at ei tir heb hedfan i ffwrdd. Mae gwyddau yn adar tymhorol, yn gori yn yr haf a dim ond ar gael adeg i'w prynu adeg y Pasg a'r Nadolig. Dyna un rheswm pam man nhw mor ddrud fel aderyn Nadolig – a'r llall yw'r amser sy'n mynd i bluo a pharatoi'r wydd i'r bwrdd. Un peth arall am y gwyddau – mae nhw'n dda am gadw porfa'n daclus – cystal a gafrod yn hyn o beth ac wrth gwrs yn well na gafr gan nad ydynt yn bwyta pob peth arall yn yr ardd!

Mae'r chwyiaid mae Ann yn gadw yn hannu o Ganada – Lake Cayuga aderyn 'pure breed', wedi ei enwi ar ôl llyn yn y wlad honno. Mae'r Cayuga yn hwyaden ddu-wyrdd yn hawdd ei bridio a'i cadw ac fel y



Ann yn dal Sofliar

gwydde yn dawel ac yn fodlon ar ei lle. Mae ei wyau yr un lliw â nhw – yn ddu fel huddug ac yn flasus dros ben. Mae Ann yn bridio nhw ac yn eu gwerthu mlan fel cywion.

A nawr at ddau air newydd o bosib i Papur Pawb – sofliar neu rhinc. Dyma'r geiriau Cymraeg am 'quail' a dyna chi a fi wedi dysgu rhywbeth! Mae Ann yn cadw tri math – y cyffredin, 'Japanese', a wedyn dau 'fancy-breed', Bobwhites a Californian. Mae'r Japanese yn weddol hawdd i fridio a magu ond y ddau fath arall yn fwy anodd. Aderyn bach yw'r 'quail' yn byw am rhyw ddwy flynedd ac yn cael ei cadw am dri rheswm – i fridio a gwerthu mlan, am y cig ac am yr wyau. Mae'r wyau a'r cig yn dipyn o 'delicacy' – mewn tai bwyta smart fe fydd yr wyau ar y fwydlen fel cwrs cyntaf a'r adar yn cael ei gweini fel par – 'brace of quails.' Er yn fach mae'r 'quails' yn gallu bod yn gas iawn, yn ymladd ac yn lladd ei gilydd. Mae nhw'n cael ei cadw mewn rhan o sied ac yn warchodol dros ben o'i tiriogaeth – y tric i gadw'n nhw'n heddychllon yw gosod y cywion newydd mewn darn newydd o'r sied a symud y lleill atyn nhw. Wedyn, fyddan nhw ddim yn ymladd dros y tiriogaeth!

Yr unig adar mae Ann yn gadw na ellid eu cwicio i ginio Sul yw colomennod. Mae ganddi golomendy pwrpasol ac yno mae na haid o 'Frillbacks', colomennod gwyn sydd fel mae'r enw yn awgrymu a phlu yn cwrlio i fyny. Colomen 'fancy' yw hon, yn reit brin (dyw Ann ddim yn gwybod am neb arall sy'n ei cadw) yn hedfan yn ffri ond yn dychwelyd i'r colomendy bob nos – yn 'homing pigeons' felly. Adar bach pert ac yn ddeniadol hefyd i'r Hebog Glas a'r Gwalch Glas. Mae Ann wedi colli sawl colomen i'r ddau aderyn ysglyfaethus hyn ac yn gorfod cadw golwg amdanynt yn y caeau o gwmpas.

A dyna ddod at elyn mawr Ann, sef y cadno. Mae'n frwydyr gyson i sicrhau fod yr holl adar yn ddiogel ond rhaid cadw cydbwysedd. Petasai'n treulio ei holl amser yn gwylio ac tendio ffensys fyddai gyda hi wedyn ddim amser i edrych ar ôl yr adar yn iawn. Mae'n colli rhai adar bob blwyddyn ond yn y diwedd yn derbyn nad oes llawer y gall hi wneud. Gyda'r nos mae'r ffowls mwy neu lai yn ddiogel gan eu bod oll i mewn dan glo yn y siediau. Ond yn ystod y dydd mae'r adar allan ac mae Ann wedi gweld y cadno yn stelcian o gwmpas, yn aros am ei gyfle. Y peryg mawr yw'r gynawes a'i chŵn bach – honno'n dod yn agos ac yn dysgu'r cŵn bach sut i ladd a'r holl braidd felly yn beryg o fod yn rhyw fath o 'McDonald's takeaway!'

Tu hwnt i'r ieir, y gwyddau a'r colomennod, oes na adar eraill yr hoffai Ann gadw? Mae wedi meddwl weithiau am gymbacs – guinea fowl – gan iddi gadw rhain yn Affrica, ac mae'r cig yn flasus dros ben ac yn hawlio pris uchel. Ond mae'r cymbac yn aderyn swllyd a felly hefyd y paun ac ar wahan i edrych yn bert a lordio o gwmpas, does dim llawer allwch wneud a pheunod. Un aderyn sy'n denu yw'r alarch, yn arbennig alarch du, ond mae Ann yn derbyn y byddai rhaid iddi greu llyn neu bwl gerllaw'r tŷ i gadw elyrch. Estrys? Dim diolch, adar cas a pheryg ac yn anodd eu trin – felly fydd na ddim lle iddyn nhw yn Tan-y-Cae.

"Adar o'r unlliw, hedant i'r unlle", medd y ddihareb. Wel, o dan ofal Ann Ovens mae na braidd o adar o wahanol liwiau, maint a golwg. Un ag oll yn ymddangos yn fodlon ar ei unlle, yn cerdded a wadlo'n ffri ac yn rhoi gwir ystyr i'r term, 'free-range.'

Papur Pawb 25 Mlynedd yn ôl

Rhai pytiau wedi eu dethol o rifyn Hydref 1980

CYFLWYNO ENGLYN



Y Dr Gwynfor Evans yn derbyn yr englyn gan Mr I R Jenkins. Yn y llun hefyd y mae Mr J R Jones, awdur yr englyn a Mr Ithel Jones.

Nid yn aml y daw arweinydd plaid wleidyddol i'r ardal hon, ond daeth y Dr. Gwynfor Evans i Dalybont ar brawn Sadwrn 27 Medi i annwyl cyfarfod blynyddol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Cyn symud ymlaen i'r Neuadd Goffa, galwodd Dr. Evans yn Tŷ Gwyn, cartref Gwilym ac Eleri Huws, lle yr oedd nifer o aelodau Cangen Talybont o Blaid Cymru yno i'w groesawu.

Ar ôl anserchiad byr gan Mr Ithel Jones, cyflwynwyd englyn wedi ei ffranio i'r Dr. Evans gan Mr I. R. Jenkins, Ty'n Graig.

Cyfansoddwyd yr englyn gan Mr J. R. Jones, Panthaul, ac fe'i ysgrifennwyd mewn dull oain gan Mr Brian Lile, sydd ar staff y Llyfrgell Genedlaethol. O dan yr englyn ysgrifennwyd y geiriau:

'Cyflwynir yr englyn hwn i'r

Dr Gwynfor Evans gan Gangen Talybont o Blaid Cymru, ar achlysur ei fuddugoliaeth fawr ar ran Iaith a Diwylliant Cymru, Medi 1980.'

ANERCHIAD

Yn ei anserchiad yn y Neuadd Goffa yn ôdiweddiarach yn y prynhawn, adroddodd Dr. Evans hanes ei broffidiadau yn ystod 40 mlynedd o ysgyrbu dros yr Iaith Gymraeg. Amgysgodd mai un o'r problemau mwyaf a wyneboedd dros y blynydd- oedd oedd gelyniaeth at yr Iaith gan nifer o Gyary Cymraeg a fyddai'n rhwystru pob ysgais i sicrhau lle teallwg i'r Iaith yn gyryd y genedl.

Ar ôl y gyseradwyath hir a gafodd y mae'n anwyl fod y gynulleidfa yn hynod o falch i weld y Dr. Evans yn fyw ac yn iach.

C.F.F.I. Tal-y-Bont a'r Cylch

Ar nos Fawrth, 6 Medi, cynhaliwyd ein Sosial Fach blynyddol yng ngofal Ifor Morgans. Cafwyd noson hwyllog, a braf oedd gweld llawer o aelodau newydd wedi ymuno â ni. Buom yng Nghlwb Golf Capel Bangor y nos Fawrth ganlynol, noson o chwarae pŵl, dartiau ayb er mwyn ymarfer tuag at Chwaraeon Dan Do'r Sir a gynhaliwyd ar nos Wener 23 Medi. Er i'r aelodau gael llawer o hwyl, ni chawsom unrhyw lwyddiant. Cafwyd Ras Hwyaidd ger Clwb Pel-droed Penrhyn-coch gyda barbeciw i ddilyn. Llongyfarchiadau i'r canlynol a ddaeth yn fuddugol:

1af Teleri Morgan
2il Geoff Davies
3ydd Shân James
Ar nos Fawrth 27 Medi, buom yn ymweld â Swyddfâr Heddlu – noson hynod o ddiddorol. Ar hyn o bryd mae'r aelodau yn dechrau paratoi gogyfer â Eisteddfod y Sir sy'n cael ei chynnal eleni yn Llanbed ar nos Iau 27 Hydref a dydd Sadwrn 29 Hydref. Pob lwc gyda'r cystadlu. Bydd aelodau'r clwb yn edrych yn hardd yn eu crysau newydd!



Catrin Jenkins



Jenny Fothergill, Sarah Ridgway, Amy Perkins, Nerys Roberts, Joanne Keeler a Megan Rees

Rhwyfo ar y Tafwys

Aeth criw o Glwb Rhwyfo Aberystwyth ar daith fythgofiadwy i Lundain ar yr ail ar bymtheg o Fedi er mwyn cystadlu yng nghystadluaueth flynyddol y "Trafalgar Great River Race". Gyda cyfanswm o 22 milltir blinedig i rwyfo, llwyddwyd i gyrraedd mewn 2 awr 52 munud awr yn lle'r 3 awr disgwylidig. Roedd yn ddiwrnod braf iawn a ddechrau'r ras yn Ham, Richmond a'i gorffen yn Island Gardens Greenwich.

Roedd 300 o gychod yn y ras. Daeth y tîm merched o dan 18 yn 118fed ac yn bles iawn gyda'r canlyniad.

Cawson fwynhad o'r profiad a hoffwn ddiolch i bawb a roddodd o'i hamser gwirfoddol gyda'r ymarferion cyn mynd ac yn Llundain yn enwedig ein hyfforddwraig Mrs Jenny Fothergill.

GWYNFOR

Gŵr annwyl, gwiw arweinydd, -ei fawredd
Glodforwn o'r newydd;
Ni phaid ei egni a'i ffydd
Na'i boen dros Gymru beunydd.
J. R. Jones

Cyflwynir yr englyn hwn i'r Dr. Gwynfor Evans gan Gangen Talybont o Blaid Cymru, ar achlysur ei fuddugoliaeth fawr ar ran Iaith a Diwylliant Cymru, Medi 1980.

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llŷs-Gwener
(01970) 832 674

GAREJ DAVMOR
M.O.T., Gwasanaeth, Batris a Theiars
Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun
www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

James Memorials
Am GOFEBAU ARBENNIG BEDDARGRAFFIADAU ADNEWYDDU O SAFON ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bannffed rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llondre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Argraffu 5-lliw a gwasanaeth di-all: holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
yloffa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
yloffa@yloffa.com
www.yloffa.com

CYNGOR CYMDEITHAS CEULANAMAESMAWR

Wedi'r egwyl dros yr haf cyfarfu'r Cyngor llawn nos Lun, 26ain Medi gyda'r Cadeirydd Rhian Evans yn rhoi ei chreso arferol. Cytunwyd bod cofnodion Cyngor Gorffennaf yn gywir gyda'r Cadeirydd yn eu harwyddo.

Rhodddwyd adroddiad gan y Cyng Rhian Evans ac Ellen ap Gwynn o'u cyfarfod gyda Andy Rowland, Eco Dyfi gyda'r amcan o geisio'r ffordd ymlaen gyda phrosiect Ysbryd y Mwynwyr ac ar yr un pryd greu ymwybyddiaeth y cyhoedd yn yr holl etifeddiaeth o ddiddordeb oddi mewn i'r cymunedau. Yn ychwanegol bwriedir ffurfio rhwydwaith o lwybrau fydd yn arwain tua ac oddi wrth y safleoedd hyn yng Ngheulanamaesmawr, Llangynfelyn ac Ysgubor y Coed.

Yn ystod mis Awst bu'n ofynnol cwblhau nifer o ffurflenni yn ogystal a pharatoi mapiau a sgetsys yn berthnasol i lwybr Cerrig Mawr i Benpompren Uchaf. Rhodddwyd gwybodaeth am ei ddefnydd dros gyfnod hir fydd yn ddiamau yn profi bod y llwybr yn un cyhoeddus. Anfonwyd y cyfan i sylw Adran llwybrau'r Cyngor Sir, deallir erbyn hyn y cymer ymron flwyddyn cyn y cwblheir yr ymchwiliad ganddynt.

Cysylltwyd unwaith eto a'r Adran Priffyrdd i geisio ganddynt wneud gwaith cynnal a chadw ar ffordd Llety Ifan Hen i Syfydrin gan fod ei chyflwr yn parhau i waethygu.

Y mae Cymdeithas Elerch wedi mynegi eu diddordeb mewn cymeryd at wasanaeth Swyddfa Bost ym Montgoch ac anfonwyd y wybodaeth yma ymlaen i Gynghorydd Trosoglwyddiadau Gwledig y Swyddfa Bost.

Cafwyd cais yn ddiweddar am i'r Cyngor gefnogi'r ymgyrch i roi terfyn ar ddiboblogi, cau siopau a chyfleusterau eraill ac i hyrwyddo cymunedau cynaliadwy. Cytunwyd gwneud hyn yn unfrydol gan gysylltu â Mr Mark Williams, yr Aelod Seneddol, gan ofyn iddo gefnogi'r Mesur Cymunedau Cynaliadwy sydd ar fin cael ei gyflwyno gerbron y Senedd, ar ran y Cyngor yma.

Erbyn hyn mae ymchwiliad cyhoeddus i Gynllun Datblygu Unedol Ceredigion wedi'i gwblhau. Disgwyllir y bydd adroddiad yr Arolygwyr yn cael ei gyhoeddi tua dechrau Mai 2006.

Cafwyd gwybodaeth bod y Cynllun Llwybrau Cyhoeddus gyda'r Cyngor Sir yn parhau am y flwyddyn nesaf eto. Gwahoddir ceisiadau am gyllid, ac fe fydd y Cynghorwyr yn ystyried anghenion am welliannau ar lwybrau cyhoeddus yn y gymuned i'w cynnwys mewn rhaglen waith y flwyddyn nesaf.

Derbyniwyd gwybodaeth fod y cais cynllunio i godi byngalo ger Hengoed a chais amlinellol am dŷ ger yr Hen Ficerdy, y ddau ym Montgoch wedi'u caniatáu.

Trafodwyd ceisiadau newydd, cais amlinellol i godi tŷ ger Caer'gog, Bontgoch; codi bloc o stablau a llain ymarfer yn Lletyllwyd; dymchwel rhan o'r modurdy a chodi estyniad deulawr yn 6 Dolpistyll a newid defnydd modurdy yn 15 Dolpistyll i stydi a cegin fach.



Cyfrol Erwyd

Yn ddiweddar daeth cyfrol hir-ddisgwyliedig Erwyd Howells o'r wasg ac efallai i rai ohonoch gael cyfle i brynu copi yn sioe Tal-y-bont.

Mae *Good Men and True* yn llafur oes o ymchwil manwl a chofnodi hanesion difyr trigolion y mynydd-dir. Ceir ynddi gipolwg ar ddull o fyw unigryw bugeiliaid y Canolbarth yn ymestyn o Fachynlleth i Gwm Elan. Pobl oedd rhain a gyfrannodd cymaint i'r gymdeithas wledig a chred Erwyd ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu cofio a'u mawrygu.

Ar brynhawniau gwlyb y gaeaf bu Erwyd yn pori drwy ddeugain mlynedd o'r *Welsh Gazette* yn y Llyfrgell Genedlaethol. Bu'n ffodus o wneud tâp llafar o rai o'r cymeriadau ac adnabod nifer o'r bugeiliaid yn bersonol a'u disgynyddion. O gael y cyfan at ei gilydd llwyddodd i greu cyfrol hynod ddarllenadwy.

Ceir ynddi nifer o luniau difyr a gwahanol ynghyd â llungopiau o ddogfennau. Enghraifft dda yw'r llun ar dudalen 200 o w'r a gwraig Lluet Fach, Ponterwyd yn dal pladurau coes syth. Diddorol oedd deall fod y goes bladur fwaog y gwyddom amdani yn llawer mwy llafurus i'w defnyddio na rhain.

Neulltir pennod i sôn am stormydd eira mawr y ganrif ddiwethaf a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r caledi mawr a'r colledion ddaeth yn eu sgil.

Yn naturiol mae pennod am ddiwrnod cneifio ar y mynydd a lluniau diddorol o'r achlysur pwysig hwn yng nghalendr y bugail.

Pwy arall fyddai'n neilltuo pennod i sôn am fwyd diwrnod cneifio a rôl bwysig y gwagedd i fwydo'r cneifwyr niferus. Ceir cofnod o'r wledd a fyddai'n cael ei pharatoi a hynny mewn cyfnod lle'r oedd yr adnoddau mor brin. Meddylier am fwydo 200 o gneifwyr llwglyd ddiwrnod cneifio Nant-stalwen a hynny yn hollol ddi-drafferth.

Pam ysgrifennu llyfr yn Saesneg? Cred Erwyd ei bod yn bwysig i ddisgynyddion y gwerinwyr hyn – llawer ohonynt bellach yn ddi-Gymraeg – i gael y cyfle i ddarllen am eu cyn-deidiau. Mae'n cydnabod yn ddiolchgar gyfraniad nifer ohonynt i'r gyfrol a'u diddordeb heintus ynddi. Rheswm digon dilys dros ysgrifennu yn yr iaith fain, mae'n siwr.

Ar ôl ysgrifennu llyfr swmpus ar y bugeiliaid cred Erwyd y dylid hefyd gydnabod cyfraniad mawr gwagedd y mynydd. Her i rywun i fynd ati i ysgrifennu a gobeithio y bydd y gyfrol honno yn gweld golau dydd yn fuan o Gapel Madog hefyd.

Mae'r argraffiad cyntaf wedi eu gwerthu ac ail argraffiad ar fin dod o'r wasg, tystiolaeth fod cyfrolau fel hyn yn hynod boblogaidd.

O.N. Mae gan Erwyd gysylltiad teuluol ac ardal *Papur Pawb*, ganwyd ei hen-dadcu, Dafydd Mason yn Nolgelynen, Cwm Ceulan yn 1860.

ANGEN

Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

Llaethdy

Tal-y-bont a'r Cylch

Yn dosbarthu i:

Tal-y-bont, Pentrebach, Taliesin,
Llangynfelyn, Tre'rddol, Ffwrnais,
Eglwysfach a Glandyfi

Cysylltwch â

Dylan neu Catherine
Ffôn: 01970 832516

Gwersi Gitâr, Gitâr Fas, Drymiau

a Mandolin, Bouzouki,
a Banjo 5-tant

Dafydd Saer BMus
832141

Trip Capel Bethel i Ddolwar Fach

Roedd hi'n fore braf Ddydd Sadwrn 24ain o Fedi, pan gychwynnodd trip Bethel i fro'r emynyddes, Ann Griffiths. Buom yn ffodus iawn i gael ein gweinidog, Y Parch Richard Lewis i'n harwain ac i sylwebu ar hyd y daith.

Roedd yn drip hamddenol, arhosom yn y Ganolfan Grefftau yng Nghorris i gael paned, cyn mynd ymlaen i'r Bala i gael cinio, gyda Richard yn sylwebu'n ddiddorol iawn ar hyd y daith.

Trosom i'r dde ymhen ucha'r Bala i fynd dros y Berwyn ar hyd ffordd na fuais i erioed arni o'r blaen, gyda golygfeydd hyfryd iawn o fynyddoedd grugog, a chymoedd ysgythrog cyn disgyn i'r pentref bach hyfryd a thawel Penybont Fawr. Yna ymlaen i Lanrhaeadr ym Mochnant ac i'r eglwys lle bu'r Esgob William Morgan yn Ficer tra'n cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Daeth un o'r aelodau yno i siarad â ni yn ddiddorol iawn am dipyn o hanes yr Eglwys, a darllenodd Geraint y drydedd salm ar hugain, a oedd yn addas iawn ar ôl i ni ddod lawr trwy'r fath gwm rhamantus.

Ymlaen wedyn i weld Capel Pendref, lle cafodd Ann Griffiths ei throedigaeth, a'r lle claddwyd y Parch Dafydd Morgan a gynorthwyodd i sefydlu'r achos ym Methel, Tal-y-bont. Cafodd Ann a fi yr anrhydedd o roi tusw o flodau ar ei fedd



ar ein rhan ni i gyd. Dyma ardal enedigol ein gweinidog, a chawsom lawer o hanesion diddorol pan oedd yn byw yno, ar y ffordd i Eglwys Llanfihangel yng Nghwynfa lle'r oedd Ann Griffiths yn aelod, a'r man lle'i claddwyd. Canwyd yr emyn "Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd", a gyfansoddwyd ganddi, cyn mynd allan i'r fynwent pryd cafwyd gair pwrpasol gan Hefin Llwyd, cyn iddo yntau roi tusw o flodau ar ei bedd ar ein rhan ni i gyd.

Yn ôl i'r bws ac ymlaen ar hyd ffyrdd cul, troellog i Ddolwar Fach, cartref Ann Griffiths, lle cawsom groeso mawr gan y teulu ifanc sy'n byw yno yn awr, a chael

mynd i mewn i'r tŷ ac arwyddo'r Llyfr Ymwelwyr.

Ar y ffordd adref, ymwelsom â Dolannog, lle mae capel coffa Ann Griffiths. Erbyn hyn, yr oedd pawb yn barod i fwyd ac yn edrych ymlaen i gyrraedd Brigands Inn yn Ninas Mawddwy. Ni chawsom ein siomi. Diolch yn fawr i Geraint am drefnu'r trip, ac i Richard am ei sylwebaeth gwerthfawr drwy'r dydd, ac am gwmni mor hwyllog lle nad oedd enwadaeth yn cyfrif. Roedd pawb o'r farn ei fod yn drip ardderchog a phleserus dros ben.

G.J.



Trip Ysgol Sul Bethel

Am wyth o'r gloch fore gwlyb yr wythfed o Hydref aeth llond bws o blant a rhieni i Barc Hamdden Heatherton, Sir Benfro. Roedd dewis da o weithgareddau i'w gwneud, aeth yr aelodau gwrywaidd hynaf i Saethu Paent at eu gilydd, tra bod y menywod yn mwynhau paneidiau o goffi. Uchafbwynt y dydd oedd y ras rhwng Julian Thomas ac Enoc Jenkins.

Y Neuadd Goffa

Mae pwyllgor rheoli'r neuadd wedi dechrau ei cyfarfodydd ar ôl seibiant yr haf ac mae nifer o weithgareddau ar y gweill yn ystod yr hydref. Nos Fercher, 19 Hydref mae disgyblion ysgol Penglais yn dod yma i gynnal cyngerdd cyn eu taith dramor dros wyliau hanner tymor. Mae'n siwr fod llawer yn cofio eu hymweliad olaf a Thal-y-bont dair blynedd yn ôl a safon uchel y cyngerdd gafwyd ganddynt. 'Roedd graen ymarfer ar yr eitemau amrywiol i gyd ac fe gadwodd y band jazz draed y gynulleidfa i gyd i symud.

Yna nos Wener, 4 Tachwedd mae cwmni o Landudoch yn dod i berfformio drama dair act. Ffurfiwyd y cwmni yn 1988 a chafodd lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn ystod y nawdegau. Ond ei brif bwrpas, yn hytrach na chystadlu, yw creu adloniant a hwyl ar gyfer neuaddau pentref a theatrau. Cyfieithiad gan Dafydd Aeron o ddrama gan Philip King yw 'Ffair Ffeiradon' – drama hwyllog a doniol. Fe'i lleolir mewn ficerdy yng nghefn gwlad Cymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae nifer o ymwelwyr â'r Ficerdy un noson, yn cynnwys hen ffrind i wraig newydd yr offeiriad, yr esgob ac eraill wedi gwisgo fel offeiriad. Tasg anodd i sarjant o'r fyddin yw darganfod pa un o'r ymwelwyr yw'r carcharor rhyfel sydd wedi dianc o'r carchar lleol.

Yn olaf, ddydd Sadwrn, 26 Tachwedd rydym yn cynnal ein ffair arferol i godi arian i gynnal a chadw y neuadd. Mae'r arian o'r ffair yn ein galluogi i gadw prisiau llogi yn rhesymol i'r mudiadau sydd yn gwneud defnydd o'r neuadd. Hefyd mae yna waith cynnal a chadw di-ddiwedd i'w gwneud yn ogystal â'r gwaith gwirfoddol mae aelodau'r pwyllgor yn ei gyflawni. Felly trowch i mewn am banded a sgwrs brynhawn Sadwrn olaf Tachwedd. Edrychwn ymlaen i weld cefnogaeth gref i'r gweithgareddau. Mae neuadd lawn yn rhoi hyder i'r perfformwyr i gyd.

Olion Gwaith Rhufeinig ar Y Figyn



Cafwyd diwrnod agored gan yr archaeolegwyr sy'n cloddio ar Y Figyn yn ystod yr haf ac yn y darlun gwelir un o swyddogion Archaeoleg Cambria, Richard Jones, yn egluro beth yr oeddynt yn ei wneud ar hyn sydd wedi cael ei ddarganfod. Darganfyddwyd y llwybr coed, sy'n dyddio o rhwng 1080 a 1120 (yn ôl dadansoddiad o'r coed) y llynedd. Ond eleni, ar y rhan agosaf at y tir mawr darganfyddwyd olion gwaith toddi plwm, gyda'r gweddillion yn dyddio o'r cyfnod 60CC – 90OC. Roedd gweithgaredd mawr yma ar ddiwedd yr Oes Haearn neu ddechrau'r cyfnod Rhufeinig. Yn sicr canfyddwyd ddarnau o lestri gwydr Rhufeinig ar y safle. Cred yr archaeolegwyr ei bod yn debygol i'r safle fod yn weithredol o'r cyfnod Rhufeinig hyn at y canol oesoedd – pryd yr adeiladwyd y ffordd goed, oedd o bosib yn rhan o gysylltiad ar gweithfeydd ar Ynys Llangynfelyn. Mae'n amlwg fod yr ardal hon yn ganolfan ddiwydiannol cynnar iawn. Edrychwn ymlaen i glywed am ragor o ddarganfyddiadau'r archaeolegwyr.

CWPAN Y BYD BEICIAU MYNYDD 2005

Ar ddechrau mis Medi ro'n i'n ddigon ffodus i gael fy newis i weithio fel goruchwyliwr yng Nghwpan y Byd Beiciau Mynydd ger Fort William, Yr Alban. Roeddwn yn falch iawn o gael cwmni fy ffrind, Dan Pettitt o Bow Street, dros y cyfnod.

Arhosais mewn hostel ieuencid yn Fort William ac roedd rhaid codi cyn 6 o'r gloch bob bore i deithio lan mewn bws mini i weithio ar y traciau yn y goedwig uwchben y dref, ar dir y Comisiwn Coedwigaeth. Roeddwn yn gyfrifol am ddiogelwch y cyhoedd, cadw'r trac yn glir, ac ymateb i unrhyw ymholiadau cyffredinol.

Mi roedd rasys traws gwlad, 4X a *down-hill* yn cael eu cynnal ar y safle. Daeth y cystadleuwyr o bob rhan o'r byd, hyd yn oed o Awstralia. Roedd hi'n ddiddorol iawn cwrdd â nhw ar gweithwyr eraill. Roedd pobl Fort William yn gyfeillgar iawn ac yn falch o gael croesawu pawb, gan fod cymaint o arian yn dod i'r ardal (£1,000,000 dros y penwythnos)!

Lan yn y mynyddoedd roedd hi'n amhosib gweld yr ymwelwyr, ond clywyd sŵn eu bloedd bob tro âi rhywun heibio, fel golygfa brwydr yn y ffilm *Lord of the Rings*! Mae'n debyg bod Martin a Craig Swanson o Eglwysfach yno hefyd yn gwyllo'r rasys, ond gan bod 24,000 yn bresennol, doedd dim syndod na wnes i gwrdd â nhw! Ond wnes i bron bwrw mewn i Charles Kennedy, ei wraig, a'i fab, a oedd yn gwobrwyo'r enillwyr. Cawson ni barti arbennig o dda ar y noson olaf, cyn i mi deithio yn gysglyd am 12 awr ar y trên yn ôl i Fachynlleth.

Robin Fuller, Ffwrnais



Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Ers i mi gael fy ethol gyntaf ym 1999, cynhaliwyd trafodaeth frwd ynglŷn â diffyg swyddi yng nghefn gwlad a phobl ifanc yn gadael i fyw a gweithio yng Nghaerdydd. Pleser felly oedd cael croesawu Gweinidog Cyllid y Cynulliad, Sue Essex, i Aberystwyth ychydig wythnosau yn ôl i gyhoeddi bwriad y Cynulliad i adeiladu Swyddfa newydd i gartrefu 500 o staff. Mae'r tir wedi ei brynu ac mae'r broses o chwilio adeiladwr wedi dechrau. Mae disgwyl i'r swyddfa fod yn barod yn 2008.



Mae'r newyddion yma'n hwb enfawr i economi Ceredigion. Fe fedrai'r Swyddfa Cynulliad yma'n hawdd fod wedi mynd i Landrindod, Drenewydd neu Caerfyrddin. Ond oherwydd ymgyrch leol gref a manteision amlwg Aberystwyth, yng Ngheredigion fydd y Cynulliad yn buddsoddi'r arian. Mae yna ryw faint o gyfiawnder yn hyn gan fod Adran Amaeth yr hen Swyddfa Gymreig wedi ei ganoli o Drawsgoed i Gaerdydd dros ddeg mlynedd yn ôl. Mae'r rhod yn troi.

Fe fydd yna amrywiaeth o swyddi yn y Swyddfa newydd - gweision sifil fydd pawb - yn delio gyda phynciau fel amaethyddiaeth, yr economi wledig ac arian Ewrop. Bydd 200 o swyddi yn symud o Gaerdydd, ond mae'n annhebygol y bydd y gweithwyr eisiau symud gyda'r swyddi. Felly fe fydd y swyddi'n cael eu recriwtio'n lleol. Dyma gyfle gwyh i bobl Ceredigion geisio am swyddi da a gyrfa sefydlog heb orfod gadael y sir. Gobeithio y bydd hyn yn ddigon hefyd i demtio rhai o'n pobol ifanc nôl i Geredigion. O'r diwedd mae'n bosib ein bod ni'n gweld datganoli allan o Gaerdydd i'r gorllewin.

Potel – i achub bywyd

Mae Clwb Rotary Aberystwyth yn dosbarthu poteli'n rhad ac am ddim i henoed cyloch Aberystwyth. Nid poteli llaeth na chwrrw nac unrhyw ddiod arall yw'r rhain; yn wir does dim byd gwlyb ynddyn nhw o gwbl. Ond mae pob potel yn cynnwys neges a all fod yn bwysig iawn os digwydd i chi gael eich taro'n wael yn eich cartre.

Y syniad yw bod henoed yn llenwi'r darn papur sydd ym mhob potel, gan nodi manylion ynghylch eu cyflwr iechyd – unrhyw afiechydon neu feddyginiaeth y maen nhw'n ei gymryd, a sut i gysylltu â'u perthnasau agosaf. Yna caiff y botel ei rhoi yn y ffrij, a bydd sticeri 'Croes Werdd' yn cael eu gosod mewn man amlwg – un ar ddrws y ffrij ac un y tu mewn i ddrws y tŷ neu'r fflat. Noddwyd y cynllun gan Gyngor Tref Aberystwyth, ynghyd ag Anthony Motors ar *Cambrian News*.

Mae llawer o'r poteli hyn wedi eu dosbarthu eisoes, ac mae'r Clwb Rotary yn awyddus i wybod am eraill – yr henoed ac unrhyw rai sy'n teimlo'r angen am y sicrwydd y mae'r cynllun hwn yn ei gynnig. Mae'r poteli ar gael i unigolion neu i gymdeithasau sy'n cynnig gwasanaeth a gofal i'r henoed ar anabl.

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu gyflenwad o'r poteli hyn, cysylltwch â Gareth Williams ar 01974-241245, neu Hywel Wyn Jones ar 01974-202980.

Teyrnged

Ar y pedwerydd o fis Gorffennaf claddwyd gweddillion William John Jones, Maes Seilo, Penrhyn-coch, gynt o Bwlchroser. Dyna deulu arall wedi marw allan gan fod ei frawd Richie a'i chwaer Katie wedi ei ragflaenu. Er fod teulu Bwlchroser wedi symud i fyw i Benrhyn-coch daliodd y tri yn aelodau o Eglwys Elerch ac yn cyfrannu mewn llawer modd. Roedd Katie wedi bod yn organyddes yno am lawer o flynyddoedd.

Roedd yno gefnderwyr a chyfnitheroedd yn yr angladd, yn rhy niferus i'w henwi. Un ohonynt oedd David Pryse, roedd yn eistedd wrth fy ymyl ac yn canu "Arglwydd dyma fi" gydag arddeliad. Ychydig a feddyliais y byddai yntau yn ein gadael mor fuan. Roedd wedi bod ym mhriodas Priscilla a Bryn, Erw barfe, wedi mwynhau ei hunan yn fawr iawn. Roedd dwy ffrind iddo wedi dod draw o'r Iseldiroedd i'r briodas, ac yntau yn canmol Jennifer am ei helpu i ofalu amdanynt. Un arall oedd yn agos at ei galon ar wahân i Gwynfor a'r teulu oedd Jane (yr Efail) a'i merch fach Lisa. Roedd wrth ei fodd yn mynd weithiau i garco Lisa tra byddai Jane yn gweithio.

Gan fy mod i a Dei Preis bron yr un oed, teimlaf fy mod yn ei adnabod erioed. Byddai yn dod ar ei feic yn hogyn ysgol a'r biliau dros ei dad. 'Pedoli'r ceffyl du', 'gosod pedolau'r gaseg', 'trwsio'r cwllwr', 'trad newydd i'r mowlder'. Pwy heddiw w'yr am y pethau yna? Trueni na fyddai pobl wedi cadw'r biliau.

H.T.

Mewn tŷ ar stâd y Council
Digwyddodd damwain fawr
Ryw ddau mewn gwely sengl
Ddisgynnodd ar y llawr
Y coesau wedi torri
A'r ffrâm yn ddarnau mân
Ni welwyd y fath ddamwain
A hyn erioed o'r blân.

Mi gefais i fy nysgu
Mewn coleg yn y dre
All neb byth roddi galwyn
I mewn i gwpan te.

Y Bardd Cwsg

Gwobrau Arbennig i'r Lolfa

Llongyfarchiadau i'r Lolfa ar eu llwyddiant yng Ngwobrau'r Diwydiant Cyhoeddi a ddyfarnwyd am y tro cyntaf eleni mewn seremoni a gynhaliwyd yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth, ddydd Sadwrn 1 Hydref. Y ddarlledwraig Elinor Jones oedd yn llywio'r gweithgareddau, a chyflwynwyd y gwobrau gan Alun Pugh, Gweinidog Diwylliant y Cynulliad. Enillodd y Lolfa'r wobwr gyntaf mewn dau gategori: y llyfr Cymraeg a fenthycwyd amlaf o lyfrgelloedd oedd *Y Dyn yn y Cefn heb Fwstas*, gan Eurig Wyn, a'r llyfr Saesneg heb fod yn ffuglen a werthodd orau oedd *Welsh Valleys' Humour* gan David Jandrell. Cyflwynwyd dau dlws hardd i Lefi Gruffudd, oedd yn cynrychioli'r wasg.

CARTREFICYNNES

WÄRME
SYSTEM WRESOGI GADWRAETHOL
DIYDANNOL LHZ

Ar gyfer gwasgoli effeithiol, economaidd
ac amgylcheddol/fabrig

Eich ymglybhoeddwr:
Gwelfor
3/18es Erión
Flwmaio
Machynlleth
Pwys
SY20 8PH

Ffôn 01854 781348
Svndol: 07840 530495

e-mail ian@cartrefi.com

PÊLDROED



Dangos Addewid

Mae Tal-y-bont wedi cael dechrau addawol i'r tymor ac mae'r tîm ymhlith ceffylau blaen ail adran Cynghrair Aberystwyth a'r Cylch.

Yn y gêm ddiweddaraf chwaraewyd gêm gyfartal 2-2 yn erbyn eilyddion Llanilar. Roedd hon yn gêm y dylai Tal-y-bont fod wedi ei hennill, yn arbennig ar ôl i James Fox sgorio ar ôl deg munud o'r chwarae. Ond gadawodd amddiffyn simsan Tal-y-bont i Lanilar unioni'r sgôr cyn i ergyd o bell gan Gareth Hughes ychwanegu at sgôr Tal-y-bont ychydig yn ddiweddarach. Fodd bynnag ildwyd gôl wael arall cyn yr egwyl. Cafodd y ddau dîm gyfleon yn yr ail hanner a bu Tal-y-bont yn pwyso yn hwyr yn y gêm ar ôl newid tactegol cyfrwys. Rhwyddodd Robbie Southgate ond roedd yn cam sefyll a tharodd Gareth Hughes y postyn ond methwyd â chipio'r triphwynt.



Cafwyd noson gymdeithasol llwyddiannus gyda'r elw yn mynd at glwb Pel-droed Tal-y-bont. Bachgen o Dal-y-bont Raymond Hughes oedd y galwr.

Cynhelir Cyrddau Diolchgarwch Eglwys St Pedr, Elerch

Nos Wener 14 Hydref am 7 o'r gloch

Pregethwr Gwadd: Parch. Philip Wyn Davies, Tregaron

Panedi ddiilyn ym Mhantgwyn. Croeso cynnes i bawb

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profesiadol • Profesiynol
Prydlon • Personal

Martin Davis

15y-coed, Tre Talleis, MACHYNLETH

Pwys 01970 822230

Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 822230 afiaith@aol.com

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120



Cipio'r Gwpan

Mae dyfodol pêl-droed yn ardal Papur Pawb yn ddiogel o ystyried camp tîm Tal-y-bont yn ennill Cwpan RAFA mewn cystadleuaeth, a oedd yn cynnwys 32 o dimau lleol, a gynhaliwyd ar ddydd Sadwrn 8 Hydref.

Roedd pedwar tîm o'r ardal yn cystadlu: Tal-y-bont, Teirw, Teriys a Merched Tal-y-bont. Rhannwyd y timau mewn grwpiau i ddechrau a llwyddodd Tal-y-bont i gyrraedd y rownd nesaf drwy ennill un gêm, cael un gêm gyfartal a cholli 1-0 i

Pont Teifi (yr unig gôl a ildwyd drwy'r dydd).

Yn y rownd nesaf chwaraewyd gêm gyfartal 0-0 yn erbyn Penrhyn-coch ac felly cafwyd cystadleuaeth ciciau o'r smotyn i benderfynu pa dîm fyddai'n mynd ymlaen i'r rownd nesaf. Yn ffordus i Dal-y-bont roedd Hefin Hopkins yn y gôl ar ei orau gan arbed tair cic o'r smotyn ac fe enillodd Tal-y-bont 3-1. Yn y rownd nesaf curwyd Tregaron 1-0 gyda Sam Jones yn sgorio'r unig gôl ac yn y rownd gyn-derfynol

chwaraewyd pêl-droed gorau'r dydd pan llwyddwyd i guro y Celtiaid (tîm yr Ysgol Gymraeg) o 4-0. Sgoriwyd y goliau gan Harri James (2), Richard Jenkins a Sam Jones.

Yn y ffeinal yn erbyn Pont Teifi roedd yn rhaid chwarae amser ychwanegol gan fod y sgôr yn 0-0 ar ddiwedd y gêm. Yn y cyfnod hwnnw Tal-y-bont oedd y cryfa a sicrhawyd y fuddugoliaeth gyda dwy gôl wych gan Richard Jenkins a Sam Jones.

Ar ddiwedd y dydd

cyflwynwyd y gwpan i gapten Tal-y-bont, Sam Jones, ac yr oedd yr holl gefnogwyr a'r rheolwr Aled Jones wrth eu boddau. Llongyfarchiadau i'r bechgyn ar eu camp.

Brian Richards

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

Mini Minors

Tra roedd tîm Tal-y-bont yn ennill Cwpan RAFA, roedd bechgyn eraill yr ardal yn cael dechrau da i'r tymor. Wedi saib o dros ugain mlynedd mae gan Dal-y-bont dîm dan 12 oed yn chwarae yn y gynghrair leol. Enillodd y tîm, sy'n cael ei hyfforddi gan Dick Squires, 2-0 yn erbyn Tregaron. Mae'r tîm yn ddiolchgar i Cambrian Landrover am ei noddi.

Ddiwedd Medi chwaraeodd dau dîm dan un-arddeg yn y *Waun Shield* sef Tal-y-bont a'r Teirw. Ar ôl ennill eu gemau cynnar yn anffodus daethont yn erbyn ei gilydd yn y rownd go-gynderfynol. Yr oedd y tîm cyntaf (Tal-y-bont) yn rhy gryf i'r Teirw ac er i Elfed Jones scorio gôl unigol ddisglair colli

oedd hanes y Teirw o bump gôl i un. Yn anffodus collodd Tal-y-bont yn y rownd gynderfynol i Bow Street a hwythau aeth ymlaen i ennill y gystadleuaeth.

I orffen hoffwn dweud diolch yn fawr i Lyn Ebenezer a Janet Evans sydd wedi codi arian sylweddol i'r clwb yn ystod yr haf. Trefnodd Lyn barti "Bodyshop" yn y ty sbri a chodwyd £99.30. Yna trefnodd Janet gyrfa chwist yn y clwb bowllo yn Machynlleth a chodi £187.75. Diolch hefyd i Janet a Barbara am drefnu'r holl wobrau ar gyfer y noson chwist ac i'r bawb am eu cyfraniadau. Bwriadwn rhoi'r arian at brynu sied i storio holl offer y clwb.

B.R.

TEIARS HUW LEWIS TYRES

Rhodfa'r Parc, Aberystwyth
Ffôn: 01970 636774

Am bris cystadleuol ar bob math o deiars, ecsôsts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...

- Dewis eang o deiars
- Balansio Electronig
- Ecsôsts
- Tracio
- Brêcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos

